❖ Myfyrdod Iesu

Mi fûm yn fach fel bawd,
yn tyfu'n ara' deg oddi mewn i mam
ac yn gorwedd yn dawel
yn y tywyllwch braf.

Doedd neb ond Ti, Dduw,
yn fy adnabod.

Cyn fy ngeni ym Methlem,
roeddet Ti'n gwybod
sut un fyddwn i
cyn i'm trwyn bach smwt dyfu.
Cyn agor fy llygaid
buost yn gofalu amdana i,
ac yn rhoi llif o waed
trwy bibell i mewn i'm corff bach
er mwyn fy nghadw'n fyw.
Roeddwn yn ddiogel
am naw mis.
Ac yna, mi ges fy ngeni.
Diolch i Ti am ddewis mam.
Fe'm cariodd yn ofalus o'i mewn
i mi gael tyfu'n dawel.

Diolch i Ti am fy ngeni i'r byd
i bawb gael fy adnabod
a'th weld Tithau'r un pryd.

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com